



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymwrthedd Gwrthficrobaidd mewn Anifeiliaid a'r Amgylchedd

Cynllun Gweithredu Pum Mlynedd i Gymru 2019-2024



Cynnwys

03

Rhagair gan y Gweinidog

04

Crynodeb gweithredol

05

Cyflwyniad

Cyd-destun y Byd a'r DU
Dull gweithredu Cymru
Ffyrdd o Weithio

06

Pum Prif Gydran y
Cynllun Gweithredu

1. Lleihau'r angen am
wrthficrobau a chysylltiad
anfwriadol â nhw

1.1 Lleihau baich haint
anifeiliaid – atal a rheoli heintiau

1.1.1 Lleihau cysylltiad
anifeiliaid â chyfyngau heintus
a allai arwain at yr angen i'w trin
â gwrthfotigau.

1.1.2 Cynyddu cymaint â
phosibl ar allu anifeiliaid i
wrthsefyll clefydau heintus a
allai, fel arall, arwain at yr angen
i'w trin â gwrthfotigau

1.2 Cynllunio iechyd anifeiliaid

09

2. Gwneud y defnydd
gorau o wrthficrobiaid
mewn anifeiliaid

2.1 Gwella safonau wrth ddewis a
phresgripsiynu gwrthfotigau

2.2 Gwella safonau cyflenwi
gwrthfotigau

2.3 Hyfforddiant ac addysg ar
ddefnyddio meddyginiaethau yn
gyfrifol i'r rhai sy'n edrych ar ôl
da byw

2.4 Rhoi gwybodaeth i berchnogion
anifeiliaid anwes am ddefnyddio
meddyginiaethau yn gyfrifol

10

3. Lleihau lledaeniad
AMR drwy'r amgylchedd

3.1 Dealltwriaeth well

3.2 Arferion rheoli gwastraff
fferm cyfrifol

3.3 Lleihau halogiad
gwrthficrobaidd

11

4. Cynyddu capasiti
labordai a chadw golwg
ar AMR mewn anifeiliaid

11

5. Buddsoddi mewn arloesi,
cyflenwi a mynediad i fynd
i'r afael ag AMR

12

Gwerthuso

Rhagair gan y Gweinidog



Lesley Griffiths
Gweinidog yr Amgylchedd,
Ynni a Materion Gwledig.

Rwy'n croesawu lansiad y cynllun hwn er mwyn mynd i'r afael â'r bygythiad o ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR) mewn anifeiliaid ac yn yr amgylchedd yng Nghymru. Mae'n amlinellu ein cynigion i drawsnewid y ffordd rydym yn ymdrin â'r bygythiad mawr hwn.

Mae AMR yn fygythiad byd-eang. Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod Cymru'n gwneud ei siâr o ran gofalu bod gwrthfotigau'n effeithiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, yma gartref a ledled y byd.

Mae datblygiad a lledaeniad AMR yn broblem gymhleth. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater, mae angen defnyddio dull "Un Iechyd" sy'n cwmpasu gwasanaethau iechyd dynol, anifeiliaid a'r amgylchedd. Rydym wedi gwneud dechrau da yma yng Nghymru. Rwy'n cydnabod y cyfraniad mawr a wneir gan filfeddygon a cheidwaid anifeiliaid sy'n gweithio ar y cyd â gweithwyr iechyd proffesiynol yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae llawer mwy i'w wneud, ac mae'r cynllun hwn yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Mae ymladd AMR yn gofyn am safonau uchel o iechyd anifeiliaid, a mabwysiadu'r egwyddor bod atal yn well na gwella. Mae'r dull hwn yn elfen ganolog o Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru¹. Mae'n helpu i sicrhau diogelwch bwyd, hyder defnyddwyr a busnesau da byw proffidiol.

Bydd y cynllun hwn yn chwarae rhan bwysig yn ein hymrwymiad i ddiogelu iechyd a lles cenedlaethau'r dyfodol, sy'n dibynnu ar wasanaethau iechyd sy'n gallu ymladd heintiau'n effeithiol.

Mae'r cynllun hwn yn nodi sut byddwn ni'n chwarae ein rhan lawn wrth gyfrannu at Gynllun Gweithredu Cenedlaethol Pum Mlynedd y DU ar AMR. Byddwn yn manteisio ar ein cryfderau, gan arwain lle gallwn ni a chefnogi eraill mewn meysydd lle maen nhw'n cymryd yr awenau.

Nid mater i'r Llywodraeth yn unig yw rheoli'r risg o AMR. Rhaid i bawb sy'n cadw neu'n gofalu am anifeiliaid ac sy'n rheoli ein hamgylchedd chwarae eu rhan. Rydym wedi gwneud dechrau da o ran gweithio ar y cyd ar AMR yng Nghymru ac rwy'n edrych ymlaen at weld hyn yn parhau ac yn cryfhau yn ystod cyfnod y Cynllun Gweithredu hwn.

¹ llyw.cymru/fframwaith-ar-gyfer-iechyd-lles-anifeiliaid

Crynodeb gweithredol



Mae'r Cynllun Gweithredu hwn ar gyfer Cymru yn nodi sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â datblygiad a lledaeniad AMR mewn anifeiliaid ac yn yr amgylchedd. Mae'n alinio â Chynllun Gweithredu Cenedlaethol Pum Mlynedd y DU ar AMR, thrwy hynny, â chynlluniau rheoli AMR rhyngwladol a byd-eang.

Mae AMR yn peri risg dirfodol i gymdeithas fodern. Mae ein gwasanaethau iechyd ar gyfer pobl ac anifeiliaid yn seiliedig ar y gallu i reoli heintiau bacterol yn llwyddiannus, ac mae AMR yn bygwth hynny. Gan fod defnyddio gwrthfotigau ynddo'i hun yn sbardun ar gyfer datblygiad AMR, dylem wneud popeth o fewn ein gallu i leihau'r angen i ddefnyddio gwrthfotigau drwy atal clefydau heintus mewn anifeiliaid. Mae hefyd yn hanfodol, pan fydd yn rhaid defnyddio gwrthfotigau, bod y broses o ddethol a gweinyddu meddyginiaethau o'r safon uchaf, a bod y driniaeth yn cynnwys adolygiad o sut gellid osgoi'r defnydd o wrthfotigau yn y dyfodol - gan symud at atal yn hytrach na gwella.

Mae angen i ni hefyd fynd i'r afael â lledaeniad AMR drwy lwybrau amgylcheddol, yn arbennig drwy ddeall sut a ble mae halogiad dŵr yn digwydd er mwyn ei atal rhag digwydd.

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn cynnwys nodau a champau gweithredu ar gyfer agweddau anifeiliaid ac amgylcheddol ar reoli AMR yng Nghymru. Fodd bynnag, deallwn fod y bygythiad yn gofyn am dull gweithredu 'Un Iechyd', lle mae risgiau a rheolaeth meddygol dynol, milfeddygol ac amgylcheddol yn cael eu trin yn gyfannol. Byddwn yn cyflawni hyn yng Nghymru drwy gydweithio'n agos â'r Prif Swyddog Meddygol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Byddwn hefyd yn annog Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i gymryd rhan weithredol yn y gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu hwn.

Byddwn yn sefydlu Grŵp Cyflawni AMR ar gyfer Anifeiliaid a'r Amgylchedd er mwyn hwyluso rhannu cyfrifoldebau, darparu cyngor arbenigol a sbarduno'r gwaith o gyflawni'r cynllun hwn.

Ein prif nodau yn y 5 mlynedd nesaf (2019-2024) yw:

- Lleihau'n sylweddol yr angen i ddefnyddio gwrthfotigau mewn anifeiliaid fferm drwy godi statws iechyd buchesi a diadellau, gan ddefnyddio'r egwyddor bod "atal yn well na gwella" drwy gynllunio iechyd anifeiliaid.
- Casglu/mesur gwybodaeth am y defnydd o wrthfotigau ar gyfer pob rhywogaeth anifeiliaid fferm o bwys yng Nghymru.
- Gwella safonau stiwardiaeth gwrthfotigau, drwy hyfforddi, meincnodi a darparu canllawiau a gosod safonau ar gyfer presgripsiynu a chyflenwi.
- Deall yn well rôl yr amgylchedd yn natblygiad a lledaeniad AMR. Yn arbennig, monitro gwrthfotigau a'u gweddillion yn yr amgylchedd, yn enwedig ffynonellau dŵr.
- Hyrwyddo'r defnydd cyfrifol o wrthfotigau mewn anifeiliaid anwes.

Cyflwyniad

Cyd-destun y Byd a'r DU

Rydym yn cydnabod mai Ymwrthedd Gwrthficrobaidd yw un o bryderon iechyd mwyaf y genhedlaeth hon a'n cyfrifoldeb ni yw diogelu llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/

Rydym yn deall ein lle yng nghyd-destun ehangach y DU a'r byd, a rhaid inni geisio dysgu oddi wrth arferion gorau mewn mannau eraill yn y byd.

Fodd bynnag, gallwn wneud gwahaniaeth drwy sefyllfa unigryw Cymru o ran trefniadau llywodraethu, tirlun cyflawni, cydberthnasau ac agwedd tuag at ein diwydiant ffermio, milfeddygol a dŵr/amgylcheddol.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei gweledigaeth 20 mlynedd a'i chynllun 5 mlynedd i reoli AMR, ac mae Cymru wedi'i llofnodi i'w harddel.

www.gov.uk/government/publications/uk-20-year-vision-for-antimicrobial-resistance

Mae lle inni fynd ar drywydd ymyriadau penodol yng Nghymru sy'n ystyried ein sefyllfa unigryw ac yn cysoni ein nodau polisi AMR â'r weledigaeth ehangach a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rydym hefyd yn dymuno manteisio ar y rhyng-ddibyniaethau rhwng iechyd a lles anifeiliaid, yr amgylchedd ac iechyd y cyhoedd. Mae'r cynllun hwn yn cyfrannu nid yn unig at Gynllun Gweithredu Blynyddol AMR Pum Mlynedd y DU ond hefyd at Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru ac yn mabwysiadu egwyddorion datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

Dull gweithredu Cymru

Yn unol â'n Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid, rydym am i Gymru gael anifeiliaid iach a chynhyrchiol, gydag ansawdd bywyd da, ac i bobl fod â ffydd a hyder yn y ffordd y mae bwyd yn cael ei gynhyrchu a'r ffordd y caiff iechyd y cyhoedd ei ddiogelu. llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-01/fframwaith-iechyd-a-lles-anifeiliaid-cynllun-gweithredu-2017-2018_0.pdf

Mae manteisio ar ein cryfderau megis cydweithio'n agos â rhanddeiliaid a phartneriaid cyflawni, yn ei gwneud yn ail natur inni fabwysiadu dull gweithredu Un Iechyd yn ein ffyrdd o weithio, gan gydlynu iechyd anifeiliaid a'r amgylchedd gydag iechyd y cyhoedd, a chyflawni'r polisi hwn mewn synergedd â'n hamcanion strategol iechyd a lles anifeiliaid.

Drwy'r egwyddorion sydd wrth wraidd ein Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid ar gyfer Cymru – megis: gweithio mewn

partneriaeth, mae atal yn well na gwella a deall a derbyn rolau a chyfrifoldebau – byddwn yn hyrwyddo gwell arferion hwsmonaeth ac atal clefydau er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd anifeiliaid yn cael eu heintio a lleihau effeithiau heintiau, gwella eu lles, lleihau'r angen iddynt gael eu trin a chynyddu cynhyrchiant busnesau fferm.

Ffyrdd o Weithio

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r nodau a'r blaenoriaethau ar gyfer rheoli Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (AMR) yng Nghymru, ar gyfer Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid. Mae'n amlinellu'n fras sut caiff y nodau hyn eu cyflawni.


Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn hwyluso'r gwaith o ymgysylltu â phartion sydd â diddordeb ac yn croesawu'r ffaith y bydd yn cael ei rhannu'n eang fel bod pobl yn deall yr hyn rydym yn ei wneud ac yn cael cyfle i gyfrannu.

Bydd Bwrdd Cyflawni AMR Anifeiliaid a'r Amgylchedd Cymru,

sydd newydd ei sefydlu, yn hybu'r gwaith o gyflawni'r cynllun hwn dros y pum mlynedd nesaf, drwy ddod â gwybodaeth a phrofiad y gwahanol sectorau at ei gilydd i sicrhau bod y Cynllun hwn nid yn unig yn bodloni uchelgeisiau ac amcanion Llywodraeth Cymru, ond yn ystyried y realiti ar lawr gwlad hefyd.

Pum Prif Gydran y Cynllun Gweithredu

Mae ein prif gydrannau yn cyd-fynd â rhai Cynllun Gweithredu Cenedlaethol AMR y DU ac yn cyfrannu atynt



1. Lleihau'r angen am wrthficrobau a chysylltiad anfwriadol â nhw

1.1 Lleihau baich haint anifeiliaid – atal a rheoli heintiau

Mae atal a rheoli heintiau mewn anifeiliaid fferm ac anifeiliaid anwes eisoes yn flaenoriaeth yng Nghymru.

Mewn anifeiliaid fferm, mae cynlluniau iechyd anifeiliaid milfeddygol, sy'n canolbwyntio ar weithredu, yn gwneud y gwaith hwn. Mae Cynllun Datblygu Gwledig Cymru ar hyn o bryd yn helpu ffermydd llaeth, cig eidion a defaid i integreiddio cynlluniau iechyd anifeiliaid yn y rheolaeth graidd o'u busnes. Mae cynllunio iechyd anifeiliaid yn effeithiol yn cynnwys bioddiogelwch da (gweler isod) a gwybodaeth am statws clefyd anifeiliaid ar y fferm. Mae hyn yn deillio o gyfrannu at systemau cadw gwyliadwriaeth clefydau drwy ymchwilio i achosion o glefydau, gan arwain at ddiagnosis cywir.

1.1.1 Lleihau cysylltiad anifeiliaid â chyfryngau heintus a allai arwain at yr angen i'w trin â gwrthfotigau

Ni ellir dileu cysylltiad â heintiau yn llwyr, ond gellir ei leihau drwy:

Mae bioddiogelwch yn rhan allweddol o waith cynllunio iechyd anifeiliaid effeithiol, ac o atal a rheoli heintiau.

Mae'n cynnwys:

- Polisiâu ar gyfer dod ag anifeiliaid i'r fferm: gofal wrth brynu/caffael anifeiliaid, asesu risg, cwarantîn, profion a thriniaeth.
- Ffiniau ffermydd – sicrhau na all clefydau ledaenu ar draws ffiniau ffermydd.
- Cerbydau, a chyfarpar sy'n mynd a dod o'r fferm – mynedfa a llwybrau a gwahanu oddi wrth anifeiliaid; diheintio.
- Pobl yn mynd a dod o'r fferm – cysylltiad blaenorol â da byw, dillad ac esgidiau.
- Rheoli bywyd gwyllt yn effeithiol, lle gallent achosi risg o drosglwyddo'r clefyd, megis cadw adar allan o storffeydd bwyd.

Mae rheoli heintiau mewn anifeiliaid yn effeithiol yn gofyn am ddealltwriaeth a chytundeb

- Gadw anifeiliaid dan amodau hylan, er enghraifft mewn systemau cynhyrchu iechyd uchel. Lle bynnag y bo modd, dylai atal heintiau gael ei ystyried wrth ddylunio siediau anifeiliaid.
- Rheoli grwpiau o anifeiliaid mewn ffyrdd sy'n lleihau lledaeniad heintiau (megis systemau siediau pawb mewn, pawb allan a rhoi anifeiliaid newydd i'r fferm mewn cwarantîn).

cyffredin am gyfrifoldebau, gyda phawb sy'n gallu dylanwadu yn chwarae eu rhan. Mae hyn yn cynnwys perchnogion a cheidwaid anifeiliaid, eu milfeddygon, y rhai a allai ledaenu clefydau heintus drwy eu gweithgareddau, y rhai sy'n trefnu symudiadau anifeiliaid a digwyddiadau lle mae anifeiliaid yn ymgynnull a'r rhai sy'n rheoleiddio. Mae'r posibilrwydd y gallai heintiau gael eu lledaenu ymlaen o anifeiliaid drwy eu cynnyrch yn galw am gydweithrediad a rhannu cyfrifoldeb am gadwyni cyflenwi a'u rheoleiddwyr.

Bydd ein dull gweithredu yn targedu:

- Lleihau cysylltiad anifeiliaid â chyfryngau heintus a allai arwain at yr angen i'w trin â gwrthfotigau, a;
- Chynyddu cymaint â phosibl ar allu anifeiliaid i wrthsefyll clefydau heintus a allai, fel arall, arwain at yr angen i'w trin â gwrthfotigau.
- Ymarfer safonau uchel o fioggiogelwch, ar bob lefel, o grwpiau unigol o anifeiliaid i lefel genedlaethol, er mwyn lleihau lledaeniad pathogenau heintus.
- Symud a chymysgu anifeiliaid cyn lleied â phosibl, ac osgoi symud anifeiliaid o unedau neu grwpiau statws iechyd isel i rai statws uchel.



1.1.2 Cynyddu cymaint â phosibl ar allu anifeiliaid i wrthsefyll clefydau heintus a allai, fel arall, arwain at yr angen i'w trin â gwrthfotigau



Gan fod rhai pathogenau'n cael eu cario gan anifeiliaid ac nad yw'n hawdd lleihau cysylltiad anifeiliaid â nhw, mae'n bwysig hefyd fod ymwrthedd i glefydau heintus cystal ag y gall fod, er enghraifft drwy:

- Sicrhau bod anifeiliaid yn cael deiet maethlon, sy'n briodol i'w hoed a'u cyfnod cynhyrchu, gan fod anifeiliaid sydd ddim yn cael digon o faeth yn fwy tueddol o gael eu heintio.
- Lleihau i'r eithaf, straen mewn anifeiliaid, sy'n gwanhau eu system imiwneidd (e.e. tymheredd eithafol a'u trin yn amhriodol).
- Rheoli cyd-heintiau, yn enwedig heintiau feirysol sy'n atal imiwneidd ac sy'n cynyddu tueddiad anifail i

gael clefydau bacteriol. Er enghraifft, gellir mynd i'r afael â dolur rhydd feirysol y gwartheg (BVD) mewn gwartheg trwy gynlluniau rheoli neu ddileu ar lefel fferm, rhanbarthol neu genedlaethol. Yng Nghymru, Gwaredu BVD yw'r rhaglen genedlaethol i ddileu BVD.

- Brechu anifeiliaid er mwyn cynyddu ymwrthedd i glefydau heintus, a blaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu brechlynnau newydd neu fwy effeithiol lle bo'u hangen.
- Manteisio ar gyfleoedd i fridio anifeiliaid sy'n gallu gwrthsefyll heintiau (er enghraifft, trwy ddedol ar gyfer ymwrthedd i fastitis mewn buchod godro).



1.2 Cynllunio iechyd anifeiliaid

Rydym eisoes yn annog y defnydd o gynllunio iechyd anifeiliaid rheolaidd, a gaiff ei fonitro, ar gyfer pob menter anifeiliaid fferm fel y prif ddull o wella'r broses o atal a rheoli heintiau. Mae cynllunio iechyd anifeiliaid yn ddull cyfannol ac mae'n gofyn am gydweithredu agos rhwng ceidwaid da byw a'u milfeddyg ac mae'n arwain at ganlyniadau gwella iechyd mesuradwy.

Byddwn yn annog arferion gorau ar gyfer rheoli heintiau mewn anifeiliaid anwes, yn enwedig ar gyfer digwyddiadau ymgynnull, fel sioeau, llety cŵn, a digwyddiadau, pan fo'r risg o ledaenu heintiau ar ei fwyaf. Byddwn yn mynd i'r afael â

risgiau heintiau sy'n benodol i anifeiliaid anwes megis bridio cŵn nad oes ganddynt dueddiad i ddal clefydau heintus, a pheryglon o fwyd amrwd ar gyfer anifeiliaid anwes.

Byddwn yn helpu ceidwaid anifeiliaid i baratoi ar gyfer cyfyngiadau yn y dyfodol ar y defnydd proffylactig o wrthfotigau mewn anifeiliaid trwy fabwysiadu dulliau amgen o reoli heintiau. I'r perwyl hwn byddwn yn blaenoriaethu bylchau gwybodaeth mewn rhaglenni ymchwil yn y dyfodol ac yn monitro effeithiau atal y defnydd proffylactig.

Byddwn yn hyrwyddo systemau gwyliadwriaeth ar gyfer clefydau anifeiliaid er mwyn adnabod risgiau clefydau heintus a thrwy hynny sicrhau rheolaeth effeithiol ohonynt.

2. Gwneud y defnydd gorau o wrthficrobiaid mewn anifeiliaid

Ein huchelgais yw i Gymru fod yn esiampl o sut mae defnyddio gwrthfotigau'n gyfrifol ac i'n milfeddygon a'n ceidwaid anifeiliaid fabwysiadu'r safonau uchaf o ran stiwardiaeth gwrthfotigau.

Credwn fod Cymru mewn sefyllfa dda i arloesi rhai o'r dulliau gweithredu newydd i sicrhau bod gwrthfotigau'n cael eu defnyddio'n ofalus ac mewn ffyrdd sy'n lleihau'r risg o ddatblygu ymwrthedd.

Mae pedwar prif ganlyniad er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o wrthfotigau mewn anifeiliaid:



2.1 Gwella safonau wrth ddewis a phresgripsiynu gwrthfotigau

Caiff hyn ei wneud drwy hyfforddiant ac addysg milfeddygon, sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol a'r fraint o ddefnyddio a rheoli gwrthfotigau mewn anifeiliaid.

Byddwn ni'n:

- Blaenoriaethu hyfforddiant ar yr arferion gorau er mwyn penderfynu a yw therapi gwrthfotig yn angenrheidiol ac yn briodol ai peidio, ac ar ddethol gwrthfotigau ar gyfer y gwellhad clinigol gorau a'r risg leiaf o ddatblygu ymwrthedd gwrthficrobaidd.
- Gweithio i sicrhau bod milfeddygon yn gallu cael gafael ar y canllawiau diweddaraf ar yr arferion gorau o ran dewis gwrthfotigau ar gyfer y senarios clinigol mwyaf cyffredin.

2.2 Gwella safonau cyflenwi gwrthfotigau

Byddwn yn gweithio gyda milfeddygfeydd i'w helpu i ddatblygu canllawiau cadarn, cyfrifol a chyson ar gyfer cyflenwi gwrthfotigau, yn enwedig i ffermydd da byw.

2.3 Hyfforddiant ac addysg ar ddefnyddio meddyginiaethau yn gyfrifol i'r rhai sy'n edrych ar ôl da byw

Byddwn yn parhau i ddefnyddio Cyswllt Ffermio, y cyfryngau cymdeithasol a sianelau eraill i roi hyfforddiant a chanllawiau i geidwaid da byw, ffermwyr y dyfodol a gweithwyr proffesiynol yn y maes gofalu am anifeiliaid ar eu cyfrifoldebau o ran storio meddyginiaethau a'u defnyddio'n ddiogel.

2.4 Rhoi gwybodaeth i berchnogion anifeiliaid anwes am ddefnyddio meddyginiaethau yn gyfrifol

Byddwn yn gweithio gyda'r cyrff milfeddygol proffesiynol ar gyfer y sector anifeiliaid anwes i hyrwyddo a chefnogi negeseuon cadarnhaol o ran defnyddio gwrthfotigau'n ofalus a'r risgiau sy'n gysylltiedig â rhai arferion – megis bwydo cig amrwd.

Ac, yn gyffredinol, byddwn yn hyrwyddo cadw at arferion gorau o ran presgripsiynu, rhoi, storio a gwaredu gwrthficrobiaid yn ddiogel yn unol â chanllawiau'r RUMA:

www.ruma.org.uk/antimicrobials/guidelines/

3. Lleihau lledaeniad AMR drwy'r amgylchedd

3.1 Dealltwriaeth well

Byddwn yn nodi'r bylchau presennol yn y dystiolaeth a'r wybodaeth am lwybrau trosglwyddo AMR rhwng anifeiliaid, yr amgylchedd a phobl, ac yn blaenoriaethu unioni'r rhain mewn gwaith ymchwil yn y dyfodol.

Byddwn yn monitro gwrthfotigau a'u gweddillion mewn ffynonellau dŵr yng Nghymru. A byddwn yn adolygu'r potensial ar gyfer gwaith monitro a rheolaeth

amgylcheddol pellach, megis cadw golwg ar facteria allweddol ag ymwrthedd yn yr amgylchedd.

Er mwyn gwella dealltwriaeth o AMR yn yr amgylchedd, bydd Cymru'n cyfrannu at y safbwynt cyfunol yng ngweinyddiaethau'r DU er mwyn:

- Cefnogi ymchwil i leihau bylchau mewn dystiolaeth a gwella dealltwriaeth o beryglon a risgiau AMR yn yr amgylchedd.

- Archwilio'r posibilrwydd o sefydlu rhaglen ymchwil yn seiliedig ar ddalgylch afon gyda safonau clir ar gyfer casglu, dadansoddi ac adolygu samplau, gyda'r nod o ddarparu data monitro AMR y gellir ei ddefnyddio i werthuso ymyriadau rheoli presennol a llywio unrhyw fentrau polisi newydd.
- Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o berygl a risg AMR yn yr amgylchedd.



3.2 Arferion rheoli gwastraff fferm cyfrifol

Byddwn yn hyrwyddo systemau rheoli gwastraff fferm mwy effeithlon ac amgylcheddol gyfrifol, gan gynnwys technolegau newydd, yn enwedig lle gellir dod o hyd i synergedd gyda blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru megis sicrhau dulliau atal llygredd gwell a mwy o fioddiogelwch trwy atal lledaeniad gwastraff fferm a'i drin.

3.3 Lleihau halogiad gwrthficrobaidd

Mae lleihau'r angen i ddefnyddio gwrthfotigau hefyd yn lleihau'r risg o effeithiau andwyol wrthfotigau ar yr amgylchedd (er enghraifft, ar fân-flodau), a'r risg o facteria sydd ag ymwrthedd i wrthfotigau a'u genynnau'n lledaenu i anifeiliaid a phobl.

4. Cynyddu capasiti labordai a chadw golwg ar AMR mewn anifeiliaid

Mae angen gwyliadwriaeth sylweddol i fesur effeithiolrwydd ymyriadau i wella'r gwaith o atal a rheoli heintiau mewn anifeiliaid.

Mae rhywfaint o wybodaeth yn bodoli eisoes, ond rydym yn hagweld gofyniad cynyddol er mwyn monitro, rheoli a gwerthuso'r Cynllun Gweithredu hwn.

Beth sydd angen i ni ei fesur neu ei fonitro?

- Faint sy'n manteisio ar gynlluniau iechyd anifeiliaid milfeddygol ar gyfer anifeiliaid fferm.
- Effaith cynlluniau iechyd anifeiliaid milfeddygol ar anifeiliaid fferm, yn benodol, nifer a natur yr achosion o glefydau mewn da byw sy'n arwain at angen am driniaeth wrthfotig.

- Dangosyddion eraill – rhai dirprwyol ac uniongyrchol – statws clefydau heintus anifeiliaid, megis tueddiadau data gwyliadwriaeth sganio, cyfraddau condemnio mewn lladd-dai, hunangofnodi gan geidwaid da byw, cynlluniau diwydiant megis cloffni mewn gwartheg.
- Swm a math o wrthfotigau a ddefnyddir mewn anifeiliaid yng Nghymru.
- Datblygu AMR mewn bacteria sy'n tarddu o anifeiliaid yng Nghymru.

Un o heriau allweddol Cynllun Gweithredu Cymru fydd cyflawni'r mesurau hyn er mwyn rheoli risg AMR yn effeithiol. Rydym yn cydnabod y potensial sydd gan dechnoleg yn hyn o beth a hefyd bwysigrwydd gwneud hynny mewn

partneriaeth a chydweithrediad â rhannau eraill o'r DU cyn belled ag y bo modd.

Byddwn yn gweithio gyda gweinyddiaethau eraill y DU a chyda phartneriaid yng Nghymru i ddadansoddi'r data gwyliadwriaeth a chynllunio iechyd anifeiliaid newydd hwn er mwyn meincnodi a llywio polisi er mwyn gallu targedu ymyriadau sy'n effeithiol ac yn rhoi gwerth am arian.

Byddwn yn ystyried cyfleoedd i wella ein dealltwriaeth o AMR mewn bwydydd dynol sy'n tarddu o anifeiliaid er mwyn nodi pwyntiau critigol i reoli llwybrau lledaeniad AMR.



5. Buddsoddi mewn arloesi, cyflenwi a mynediad i fynd i'r afael ag AMR

Mae mynd i'r afael ag AMR yn gofyn am wybodaeth a dealltwriaeth o natur y bygythiad. Mae ein hanghenion tystiolaeth yn fawr ac yn eang, o sail foleciwlaidd datblygiad a lledaeniad ymwrthedd, i ymddygiad milfeddygon a cheidwaid da byw sy'n presgripsiynu ac yn defnyddio gwrthfotigau.

Mae'r dystiolaeth sydd ei hangen i gyflawni'r Cynllun hwn yn amrywio o ymchwil sydd â pherthnasedd byd-eang i wybodaeth ar lefel y DU i ddata a dealltwriaeth sy'n benodol i Gymru.

Mae cyllideb a gwaith goruchwyllo'r llywodraeth ar gyfer holl waith ymchwil y DU ar AMR mewn anifeiliaid yn

perthyn i'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol. Byddwn yn parhau i gyfrannu ein gofynion a'n cyngor i'r rhaglen ymchwil hon.

Byddwn hefyd yn chwilio'n ddyfal am gyfleoedd i wyddonwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru gyfrannu at y Cynllun hwn, heb ddyblygu gwaith sy'n cael ei wneud mewn mannau eraill.

Gwerthuso



Sefydlwyd Grŵp Cyflawni AMR Anifeiliaid a'r Amgylchedd Cymru er mwyn mireinio ac argymhell Cynllun Gweithredu Ymwrthedd Gwrthficrobaidd mewn Anifeiliaid ac yn yr Amgylchedd ar gyfer Cymru. Mae hefyd yn anelu at sicrhau bod y Cynllun Gweithredu yn cael ei gyflawni a bod ei ganlyniadau'n cael eu gwireddu.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn amlinellu blaenoriaethau, sut mae'r rhain yn cyfrannu at y canlyniadau strategol, a champau gweithredu allweddol. Bydd y cynllun yn cael ei adolygu'n barhaus.

Os oes angen, gellir cynnwys blaenoriaethau newydd i adlewyrchu sefyllfaoedd a all godi. Disgwylir y bydd rhai blaenoriaethau yn parhau i

fod mewn grym dros nifer o flynyddoedd tra bydd gan eraill oes fyrrach o lawer ond gallant gael effaith sylweddol serch hynny.

Caiff y blaenoriaethau a'r amserlen ar gyfer cyflawni pob amcan eu hystyried gan y Bwrdd Cyflawni. Rhaid i bob amcan fod yn fesuradwy fel y gellir monitro llwyddiant.